

Y Comisiwn Etholiadol

Cyrff a ariennir yn gyhoeddus a'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Caiff trefn cynnal y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE ei llywodraethu gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei gynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

O dan PPERA, mae cyfyngiadau ar y deunyddiau gall gweinidogion y DU a Llywodraethau

datganoledig, adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrrff penodol sy'n derbyn arian cyhoeddus ei gyhoeddi am y refferendwm o 27 Mai 2016 i'r diwrnod pleidleisio 23 Mehefin 2016.

Mae'r cyfyngiadau'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm yn ogystal â'r materion a'r dadleuon o blaid neu yn erbyn aros yn yr UE neu adael yr UE. Mae'r cyfyngiadau hefyd yn gymwys i ddeunydd a gynlluniwyd i annog pobl i bleidleisio.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro'r cyfyngiadau, a ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth.

Pryd y bydd y cyfyngiadau'n gymwys?

Bydd y cyfyngiadau'n gymwys o 27 Mai 2016 nes diwedd y diwrnod pleidleisio, 23 Mehefin 2016.

Mae'r dyddiadau hyn yn seiliedig ar reoliadau a gyflwynwyd gan y llywodraeth ac yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol. Os bydd y dyddiadau hyn yn newid byddwn yn diweddarau ein [gwefan](#).

Beth mae'r cyfyngiadau yn ei gwmpasu?

Mae'r cyfyngiadau'n cwmpasu unrhyw ddeunydd, sydd ar gael i'r cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd, mewn unrhyw ffurf a thrwy unrhyw gyfrwng sydd:

- yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm - gan gynnwys deunydd nad yw'n cefnogi'r naill ganlyniad na'r llall
- yn delio ag unrhyw rai o'r materion a godir gan gwestiwn y refferendwm
- yn rhoi dadleuon o blaid neu yn erbyn canlyniad penodol
- wedi'u cynllunio i annog pobl i bleidleisio yn y refferendwm

Nid yw'r cyfyngiadau'n cwmpasu:

- deunydd a ddarperir ar gyfer unigolion mewn ymateb i geisiadau penodol am wybodaeth neu unigolion sy'n gwneud ymdrech benodol i gael y fath ddeunydd
- hysbysiadau i'r wasg

- unrhyw beth a wneir gan neu ar ran:
 - arweinydd ymgyrch dynodedig
 - y Comisiwn Etholiadol gan gynnwys Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn gweithredu fel hyn
- gwybodaeth am gynnal y bleidlais, fel dyddiad y refferendwm neu leoliad gorsafoedd pleidleisio

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth am ganlyniad y cyd-drafodaethau rhwng aelod-wladwriaethau ac am fod yn aelod o'r UE cyn 15 Ebrill 2016.

Nid yw'r cyfyngiad ar gyhoeddi deunydd yn gymwys i'r adroddiadau hyn.

I bwy y mae'r cyfyngiadau hyn yn gymwys?

- Gweinidogion llywodraethau'r DU, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon
- Adrannau llywodraethau'r DU, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon
- llywodraeth Gibraltar ac adrannau llywodraeth Gibraltar
- awdurdodau lleol
- unrhyw unigolion neu gyrff eraill y caiff eu treuliau eu talu'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan arian cyhoeddus (gan gynnwys arian cyhoeddus Gibraltar) neu gan awdurdod lleol ac eithrio'r BBC, Sianel Pedwar Cymru neu Gorfforaeth Ddarlledu Gibraltar

Beth am sefydliadau eraill?

Gall unrhyw un arall gyhoeddi deunydd am y refferendwm yn ystod y cyfnod 28 diwrnod hwn.

Rhaid i unrhyw un sy'n cyhoeddi deunydd sy'n cefnogi un o ganlyniadau'r refferendwm gydymffurfio â'r rheolau ar ymgyrchu a gwariant yn ystod y refferendwm. Mae ein canllawiau i ymgyrchwyr ar gael ar ein [gwefan](#).

Beth fydd yn digwydd os credwch fod y cyfyngiadau wedi'u torri?

Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw bwerau o dan PPERA i gosbi cyrff nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn.

Fodd bynnag, byddwn yn monitro ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chanllawiau a, lle y bo'n briodol, gyfeirio mater at y corff priodol.

Os oes gennych bryderon bod corff o bosibl wedi torri'r cyfyngiadau hyn, dylech wneud cwyn i'r sefydliad priodol a restrir isod. Os nad ydych yn siŵr pa sefydliad y dylech gysylltu ag ef, neu os nad yw'r sefydliad wedi'i restru yn y tabl, cysylltwch â ni i gael cyngor.

I wneud cwyn cysylltwch:

	Cyswilt
Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth y DU	Swyddfa'r Cabinet proprietyandethicsteam@cabineoffice.gov.uk
Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth yr Alban	Ysgrifenyddiaeth y Cabinet CabinetSecretariat3@gov.scot
Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru	Uned Cyngor Cwynion 029 2080 1378 http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/?lang=cy
Gweithrediaeth ac awdurdodau lleol Gogledd Iwerddon	Pennaeth Swyddfa Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon hocs@ofmdfmi.gov.uk
Awdurdodau lleol	Cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol

Sut allwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau yr ydym wedi awgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld yr holl ganllawiau a'r adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch neu e-bostiwch ni:

- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholia.dol.org.uk
- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk